Gorffennaf 2009

Nodyn briffio

Y Comisiwn Etholiadol

# Cymdeithasau anghorfforedig

## Cyfrifoldebau newydd i chi roi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol am gyfraniadau gwleidyddol rydych yn eu gwneud a rhoddion a wneir i chi

Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 yn cyflwyno rheolau rhoi gwybod am roddion i gymdeithasau anghorfforedig sy'n cefnogi gweithgareddau gwleidyddol.

Mae'r nodyn briffio hwn yn rhoi canllawiau am y newidiadau i'r gyfraith.

### A yw'r rheolau newydd yn berthnasol i'n sefydliad?

Mae'r rheolau newydd yn berthnasol i gymdeithasau anghorfforedig o un neu fwy o unigolion. Dim ond os oes gan gymdeithas anghorfforedig brif swyddfa yn y Deyrnas Unedig a'i bod yn cynnal busnes, neu weithgareddau eraill, yn bennaf yn y Deyrnas Unedig, y gall wneud cyfraniadau gwleidyddol.

Os yw eich cymdeithas eisoes yn rhoi gwybodaeth i ni fel cymdeithas aelodau nid oes angen i chi wneud hynny am yr eildro fel cymdeithas anghorfforedig, ond efallai y bydd angen i chi roi gwybod i ni am y cyfraniadau gwleidyddol rydych yn eu gwneud.

### Pryd mae angen i ni roi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol am y cyfraniadau gwleidyddol rydym yn eu gwneud?

O **fis Ionawr 2010** mae'n ddyletswydd arnoch i'n hysbysu os yw'r cyfraniadau gwleidyddol rydych yn eu gwneud yn ystod blwyddyn galendr yn fwy na **£25,000**.

Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi roi gwybod i ni os bydd eich cymdeithas yn gwneud:

- un cyfraniad gwleidyddol o fwy na £25,000 neu
- sawl cyfraniad sy'n gwneud cyfanswm o fwy na £25,000 mewn blwyddyn galendr - dim ond cyfraniadau dros £500 y bydd angen i chi eu cyfrif tuag at y cyfanswm hwn

Bydd y ffurflenni gyda nodiadau esboniadol integredig y cyfeirir atynt yn y canllawiau hyn ar gael ar ein gwefan www.comisiwnetholiadol.org.uk o fis Medi 2009.

Mae democratiaeth yn bwysig

Y dyddiad y byddwch yn gwneud y cyfraniad unigol, neu'r dyddiad y bydd cyfanswm y cyfraniadau lluosog yn fwy na £25,000 yw dyddiad y cyfraniad.

Yn y ddau achos bydd angen i chi roi gwybod i ni fod y gymdeithas wedi gwneud cyfraniadau gwleidyddol o fewn 30 diwrnod i ddyddiad y cyfraniad. Dylech ddefnyddio ffurflen UA1 (a fydd ar gael o'n gwefan o fis Medi 2009) i roi gwybod i ni.

Ystyr cyfraniad gwleidyddol yw:

- rhodd neu fenthyciad a wneir i blaid wleidyddol gofrestredig
- rhodd neu fenthyciad a wneir i aelod o blaid wleidyddol gofrestredig
- rhodd neu fenthyciad a wneir i gymdeithas sy'n cynnwys aelodau plaid yn bennaf (cymdeithas aelodau)
- rhodd neu fenthyciad a wneir i ddeiliad swydd etholedig berthnasol (fel aelod o Dŷ'r Cyffredin; neu aelod o un o'r deddfwrfeydd datganoledig)
- rhodd a wneir i drydydd parti sydd wedi cofrestru gyda ni
- rhodd a wneir i gyfranogwr a ganiateir mewn refferendwm

Dylech ddarllen y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â ffurflen UA1 i gael mwy o fanylion ynglŷn â sut mae'r gyfraith yn diffinio rhoddion a benthyciadau, sy'n cael eu prisio yn ôl gwerth y farchnad yn gyffredinol.

## Pryd mae angen i ni roi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol am y rhoddion[1] a wneir i ni?

Os ydych yn rhoi gwybod i ni am gyfraniadau gwleidyddol, yna mae'n rhaid i chi hefyd roi gwybod am y rhoddion a wnaed i chi cyn i chi wneud y cyfraniadau gwleidyddol.

Mae gennych 60 diwrnod o ddyddiad y cyfraniad i roi'r wybodaeth hon i ni. Dylech roi gwybod i ni am roddion a wnaed i chi ar ffurflen UA2 (a fydd ar gael ar ein gwefan o fis Medi 2009).

Dylech gynnwys pob rhodd o fwy na £7,500 a wnaed i'r gymdeithas o ddechrau'r flwyddyn galendr flaenorol hyd at ddyddiad y cyfraniad. Nid oes angen i chi roi gwybod am unrhyw roddion a wnaed i chi cyn 21 Gorffennaf 2009.

Os ydych wedi gwneud unrhyw gyfraniadau gwleidyddol, ond na wnaed unrhyw roddion i chi yn ystod y cyfnod penodol yna mae'n rhaid i chi roi gwybod na wnaed unrhyw roddion i chi yn ystod y cyfnod.

## A oes unrhyw gyfrifoldebau eraill i roi gwybod?

Unwaith y byddwch wedi rhoi gwybod i ni am gyfraniadau gwleidyddol, mae'n rhaid i chi hefyd gyflwyno adroddiadau chwarterol ar unrhyw roddion o fwy na £7,500 a wneir i chi ar ôl dyddiad y cyfraniad. Bydd angen i'r adroddiad gynnwys manylion yr unigolyn neu'r sefydliad a wnaeth y rhodd.

Dylid cyflwyno'r adroddiad cyntaf ar ddiwedd y chwarter sy'n cynnwys dyddiad y cyfraniad. Daw'r chwarteri i ben ar 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi a 31 Rhagfyr. Dylech barhau i roi gwybodaeth bob chwarter hyd at ddiwedd y flwyddyn galendr nesaf. Dylech roi gwybodaeth bob chwarter gan ddefnyddio ffurflen UA3 (a fydd ar gael ar ein gwefan o fis Medi 2009), y dylid ei hanfon atom o fewn 30 diwrnod i ddiwedd y chwarter.

Os na wnaed unrhyw roddion i chi mewn chwarter dylech roi gwybod i ni o hyd gan nodi na wnaed unrhyw roddion i chi yn ystod y cyfnod hwn. Gweler y nodiadau esboniadol ar gyfer ffurflen UA3 i gael rhagor o fanylion am sut i lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon.

## A oes unrhyw beth arall y dylem wybod amdano?

### Datganiadau

Bydd angen i unigolyn, sydd ag awdurdod i gynrychioli'r gymdeithas anghorfforedig, wneud datganiad ar yr hysbysiad, a hefyd ar unrhyw adroddiadau a gyflwynir i ni. Bydd y datganiad yn nodi bod popeth yn yr hysbysiad neu'r adroddiad yn gywir, ac yn cydymffurfio â'r gyfraith.

### Troseddau

Dylai cymdeithasau anghorfforedig a'r unigolion sydd wedi'u hawdurdodi i wneud y datganiadau ar gyfer y gymdeithas fod yn ymwybodol y cyflawnir trosedd os:

1 Caiff rhoddion eu diffinio gan gyfraith nad yw ar gael eto. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o ganllawiau ar roddion pan fydd y gyfraith hon yn weithredol.

- bydd y gymdeithas yn methu â rhoi hysbysiad neu roi gwybod i'r Comisiwn, heb esgus rhesymol, o fewn y cyfnod a ganiateir
- bydd y gymdeithas yn cyflwyno hysbysiad neu adroddiad nad yw'n bodloni'r gofynion adrodd a nodir yn y gyfraith; neu
- bydd yr unigolyn awdurdodedig yn gwneud datganiad anwir

## Cofrestr o roddion y dylid rhoi gwybod amdanynt i gymdeithasau anghorfforedig

Byddwn yn cyhoeddi cofrestr o'r hysbysiadau a wnaed i ni a'r rhoddion y rhoddwyd gwybod i ni amdanynt gan gymdeithasau anghorfforedig. Ni fydd y gofrestr hon yn cynnwys cyfeiriad cartref unrhyw unigolyn.

Os byddwch yn rhoi gwybod i ni am roddion ond nad yw'r hysbysiad wedi'i gyflwyno, sy'n golygu nad oes gennych gofnod ar y gofrestr, ni fyddwn yn datgelu manylion unrhyw unigolyn sy'n gwneud rhoddion oni fyddwn wedi hysbysu'r unigolyn hwnnw ymlaen llaw. Yna bydd gan unigolion 45 diwrnod i gyflwyno sylwadau ynghylch pam na ddylid datgelu pwy ydynt ar y gofrestr.

## Ble y gallwn gael rhagor o gyngor?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am wneud cyfraniadau gwleidyddol a rhoi gwybod am roddion a wnaed i gymdeithasau anghorfforedig cysylltwch â ni am ragor o gyngor.

**Gellir cael rhagor o gyngor gan:**

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Ffôn: 020 7271 0616
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost:pef@electoralcommission.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk

Neu

The Electoral Commission
Lothian Chambers
59-63 George IV Bridge
Edinburgh EH1 1RN

Ffôn: 0131 225 0200
Ffacs: 0131 225 0205
E-bost: infoscotland@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805
E-bost: infowales@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Northern Ireland Office
Seatem House
28-32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN

Ffôn: 028 9089 4020
Ffacs: 028 9089 4026
E-bost: infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw sicrhau uniondeb a meithrin hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gaiff eu rhedeg yn dda.
Am ragor o wybodaeth, ewch i: **www.comisiwnetholiadol.org.uk**

Y Comisiwn Etholiadol